# CATHERALL, JONATHAN (1761 - 1833), diwydiannwr a dyngarwr

**Enw:** Jonathan Catherall
**Dyddiad geni:** 1761
**Dyddiad marw:** 1833
**Priod:** Catherine Catherall (née Jones)
**Plentyn:** William Catherall
**Rhiant:** Martha Catherall
**Rhiant:** John Catherall
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** diwydiannwr a dyngarwr
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Dyngarwch
**Awdur:** Mary Gwyneth Lewis

Yr ieuengaf o dri mab John a Martha Catherall, Bwcle, Sir y Fflint. Tra oedd yn Llundain yn astudio ar gyfer y gyfraith, bu ei dad farw ar 7 Rhagfyr 1777, a daeth adref i gynorthwyo ei fam yn y gwaith llestri pridd a sefydlwyd gan y teulu yn yr 17eg ganrif Wedi marw ei fam yn 1792 cymerodd ef reolaeth o'r cyfan a datblygodd y fusnes yn helaeth. Yn 1792 hefyd y priododd Catherine Jones, merch ficer Llannor a Deneio, Sir Gaernarfon.

Arferai fynychu eglwys Penarlag, ond tua 1785 penderfynodd ymuno â'r Annibynwyr, a bu'n ffyddlon i'w hachos ar hyd ei oes. Pryderai am gyflwr moesol ac ysbrydol ei ardal, lle yr oedd y boblogaeth yn cyflym gynyddu, a bu ganddo ran amlwg yngl n â sefydlu achosion yr Annibynwyr yn Bagillt, Holywell, a Bwcle. Cafodd drwydded i gynnal gwasanaethau crefyddol yn ei d , Hawkesbury House, a adeiladodd yn 1801, ac yn 1811 prynodd ddarn o dir, ac ar ei draul ei hun cododd gapel newydd yno. Yr oedd yn gasglwr ar ran y Feibl Gymdeithas Frutanaidd a Thramor yn Sir y Fflint.

Bu ei wraig farw yn 1807 yn 35 oed, ac o'r wyth blentyn a anwyd iddynt bu pump farw yn ieuainc. Yn 1818 bu ei ddwy ferch farw o dwymyn, un yn 24 a'r llall yn 23 oed. Cymerodd ei fab William yn bartner yn y fusnes yn 1819 pan ddaeth i'w oed. Bu farw 31 Gorffennaf 1833 a chladdwyd ef ym mynwent capel Annibynnol Bwcle.

## Awdur

**Mary Gwyneth Lewis**, (1912 - 1999)

## Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iv, 219, 237, 241-2

Thomas Cropper, *Buckley and District. Historical, biographical, reminiscent* (Buckley 1923), 59-96, llun

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Jonathan Catherall

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733687

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu